

CYNGOR CYMUNED PENTIR

CYFARFOD BLYNYDDOL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR YR 12/05/2016

Presennol:

Mr Dafydd Jones Morris (Cadeirydd)
Dewi Jones
Jean Pierce
Richard Gwynedd Roberts
Catrin Elis Williams
Richard Jones
Tudur Anwyl
Lowri James
Elwyn Jones (Swyddog Gweithredol)
Ymunodd Huw Griffiths ar eitem 2
Ymunodd John Wyn Williams ar eitem 4.

Ymddiheuriadau:

Anwen Thomas
Llyr ap Serw – Clerc Llywodraethol (ar gyfnod tadolaeth)

1. Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd 14eg o Fai 2015 a materion yn codi.

1.1 – Derbyn Cofnodion

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

1.2 – Materion yn codi o'r cofnodion

Ymddiriedolwyr y Fynwent – Nodwyd bod angen derbyn cyngor ynglyn a goblygiadau i'r rhai sydd wedi eu henwi fel ymddiriedolwyr ar gyfer y fynwent. Cytuniwyd i'r clerc gysylltu efo Gamlins i holi ymhellach.

2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2015-16

Derbyniwyd cyfrifon am y flwyddyn 2015-16 ynghyd a'r adroddiad ariannol. Cynnigodd RGR i'r Is-Bwyllgor Cyllid gael mandad i drafod cynwys adroddiad yr archwilydd mewnol gan adrodd yn ol fel bo' briodol i'r Cyngor llawn. Eilwyd y cynnig gan CEW ac fe'i gytunwyd heb wrthwynebiad.

3. Adroddiad y Cadeirydd

Amlinellodd DJM, y Cadeirydd ychydig o brif nodweddion y flwyddyn gan ddiolch i Llyr ac Elwyn am eu hymdrech a'r gwaith caled. Fe nodwyd bod y cyngor wedi gweld ffrwyth eu llafur dros y flwyddyn. Diolchodd hefyd i aelodau'r cyngor am eu holl cefnogaeth gyda phawb yn chwarae eu rhan drwy fynychu nid yn unig y cyngor ond yr is-bwyllgorau hefyd a rhai yn cyd-weithio ar brosiectau. Caewyd yr adroddiad drwy nodi mai canolbwyntio ar edrych ymlaen i'r flwyddyn o'm blaenau oedd ei angen rwan, yn enwedig symyd ymlaen gyda datblygiad y Ganolfan ym Mhenrhosgarnedd.

4. Ethol Swyddogion

4.1 – Ethol Cadeirydd

Cynigwyd gan LAJ bod DJM yn parhau am flwyddyn ychwanegol – eilwyd gan TA. Cytunodd DJM felly i barhau yn y gadair am flwyddyn ychwanegol. Nodwyd bod angen adolygu'r Rheolau Sefydlog a chael trafodaeth ynglyn a chyfnod yn y gadair. Nodwyd bod rhai aelodau o'r farn bod cyfnod o ddwy flynedd yn well na blwyddyn gan fod hynny'n rhoi'r cyfle i'r sawl sy'n y gadair i weld ffrwyth ei waith. Cytuniwyd i drafod ymhellach mewn cyfarfod arferol o'r cyngor.

4.2 – Ethol Is-Gadeirydd

Gan bod DJM yn parhau yn y gadair am flwyddyn ychwanegol, fe gytunwyd y byddai HG yn parhau fel Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

4.3 – Aelodaeth o'r Is-Bwyllgorau

Cytuniwyd i aelodaeth Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Asedau barhau fel ag y mae am y tro.
